ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019–21







Tachwedd 2019

# Buddsoddi mewn rhagoriaeth: Ein cynllun cenedlaethol i ddatblygu'r gweithlu 2019–21

## Cynulleidfa

Y gweithlu ysgolion a'r rhai mewn lleoliadau eraill sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen; rhieni a gofalwyr; partneriaid y llywodraeth a phartneriaid cenedlaethol, gan gynnwys consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, cyrff llywodraethu ysgolion, undebau'r gweithlu, Cyngor y Gweithlu Addysg, Estyn, Cymwysterau Cymru, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc; a phartïon eraill â diddordeb.

## Trosolwg

Mae'r cynllun cenedlaethol hwn i ddatblygu'r gweithlu yn nodi meysydd allweddol y gwaith o ddatblygu'r gweithlu lle mae rhaglen ddiwygio Llywodraeth Cymru yn ysgogi newidiadau, lle rydym yn trawsnewid y ffordd rydym yn llunio polisïau a lle rydym yn buddsoddi er mwyn gwella systemau'n sylfaenol. Mae cynllun datblygu'r gweithlu yn cefnogi ein dyheadau i sicrhau bod ein hysgolion yn cael y gweithlu sydd ei angen arnynt, bod ein hathrawon fel proffesiwn yn cael eu cydnabod am eu gwaith, a bod ein gweithlu addysgu yn cael ei wobrwyo'n deg a'i gefnogi i fod cystal ag y gall.

## Camau i'w cymryd

Dylai partïon â diddordeb nodi cynnwys y cynllun hwn i ddatblygu'r gweithlu ar gyfer 2019–21 a gweithredu'n unol â hynny.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: AddysgyngNghymru@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/cynllun-datblygur-gweithlu-2019-i-2021

## Dogfennau cysylltiedig

*Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (2017); *Cytundeb Blaengar rhwng y Prif Weinidog a Kirsty Williams AC* (2018); *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* (2017); *Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru* (2015); *Buddsoddi mewn gweithlu rhagorol: Cynnydd wrth ddatblygu cynllun datblygu'r gweithlu* (2019); *Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr (2018); Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21* (2017)

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38269 ISBN digidol 978-1-83933-426-9

# Cynnwys

**Rhagair gan y Gweinidog** 4

**Cyflwyniad** 6

**Strwythur** 11

**1. Sicrhau'r sail strwythurol a'r cymorth cywir ar waith i gynllunio'r gweithlu** 13

Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) 13

Cyflog ac amodau athrawon 14

Rheoli llwyth gwaith a lleihau biwrocratiaeth 15

Athrawon cyflenwi 18

**2. Meysydd trawsbynciol** 21

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) 21

Cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg 22

Deall ffurf y gweithlu yn y dyfodol a modelu goblygiadau gwireddu Cwricwlwm i Gymru 2022 24

**3. Recriwtio, camau cynnar yng ngyrfa athro, cadw athrawon a llwybrau gyrfa** 27

Recriwtio 28

Camau cynnar yng ngyrfa athro 30

Cadw athrawon a chamu ymlaen mewn gyrfa 33

**Llywodraethu, monitro a thu hwnt i 2021** 39

# Rhagair gan y Gweinidog

Nod *Cenhadaeth ein cenedl* yw codi safonau, lleihau’r bwlch cyrhaeddiad, a chyflwyno system addysg sy’n destun hyder a balchder cenedlaethol. Er mwyn cyflawni hynny, mae angen gweithlu addysg o safon uchel sy’n egnïol a brwdfrydig, ac sydd wedi ymrwymo i sicrhau dysgu parhaus i bawb.

Nod y cynllun cenedlaethol hwn i ddatblygu’r gweithlu yw helpu i sefydlu systemau mwy effeithiol ar gyfer cynllunio’r gweithlu er mwyn sicrhau bod gennym ddigon o athrawon medrus, gan gynnwys y rhai sy’n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a’r rhai sy’n gallu llenwi’r ystod eang o rolau anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a hefyd datblygu modelau amgen er mwyn sicrhau bod digon o athrawon cyflenwi o safon ar gael i ysgolion.

Drwy wireddu ein cynllun i ddatblygu’r gweithlu, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwella cydlyniaeth y ffrydiau gwaith unigol sy’n cyfrannu at gyflawni ein hamcanion ac yn sicrhau cysondeb drwy ein systemau cynllunio cyfan. Mae’r cynllun hefyd yn rhoi gwell pwyslais ar gynllunio’r gweithlu gyda ffocws cadarn ar y bobl sy’n gyfrifol am ei gyflawni.

Nid ydym yn dechrau o’r dechrau; yn wir, mae yna lawer y gallwn fod yn falch iawn ohono – o’n gwaith cychwynnol ar gyflogau ac amodau yn dilyn eu datganoli i Gymru i’n gwaith i sefydlu sylfaen strwythurol gadarn ar gyfer cynllunio’r gweithlu. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i gyflymu rhai agweddau ar y gwaith hwn, megis gweithio gyda’r Ysgolion Braenaru i ddeall rhai o oblygiadau Cwricwlwm i Gymru 2022 i’r gweithlu, a gweithio gyda’r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru i ystyried atebion strategol a chysylltiedig yn ymwneud â chynllunio ar gyfer olyniaeth ar draws ein system addysg.

Mae’r cynllun hwn i ddatblygu’r gweithlu yn nodi’r weledigaeth a’r trywydd i gefnogi ein dyheadau ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru, gan gefnogi addysgu er mwyn iddo gael ei ystyried yn broffesiwn atyniadol ac ysbrydoledig sy’n denu ac yn cadw unigolion o safon uchel. O ystyried bod addysg yn bwysicach nag erioed, mae’n glir bod ein gweithlu’n hanfodol ar gyfer ei lwyddiant.





**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg


Teacher
250 ml

# Cyflwyniad

Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y system addysg yng Nghymru. Mae angen codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

Fel yr amlinella *Cenhadaeth ein cenedl*, ni all ein system addysg fod yn well nag ansawdd ei hathrawon, ac ni all ein cwricwlwm newydd – Cwricwlwm i Gymru 2022 – gael ei gyflwyno heb broffesiwn addysgu ysbrydoledig sy'n cael ei gefnogi'n dda. Yn *Cenhadaeth ein cenedl*, rydym yn nodi ein hymrwymiad i ddatblygu cynllun cenedlaethol cyffredinol i ysgolion ar ddatblygu'r gweithlu.

Rydym yn glir mai diben cynllun datblygu'r gweithlu o'r fath yw bod yn alluogydd yn y system wrth inni anelu at sefydlu systemau mwy effeithiol ar gyfer cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau digon o athrawon hyfedr, gan gynnwys y rhai sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhai sy'n gallu llenwi'r amrywiaeth eang o rolau anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r cynllun hwn i ddatblygu'r gweithlu yn canolbwyntio'n benodol ar athrawon, arweinwyr mewn ysgolion, a'r rhai, megis cynorthwywyr addysgu, sy'n cefnogi addysgu yn ein hystafelloedd dosbarth.

Mae'r cynllun hwn i ddatblygu'r gweithlu wedi'i osod yn gadarn yng nghyd-destun ein hymrwymiad i archwilio hawl Gymreig newydd i ddysgu gydol oes, buddsoddi yn y sgiliau y mae ar bobl eu hangen drwy gydol eu bywydau, er budd yr unigolyn, y gymdeithas a'r economi, fel yr amlinellir yn y *Cytundeb Blaengar* rhwng y Prif Weinidog a Kirsty Williams AC. Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddwyd diweddariad ar ein cynnydd tuag at yr ymrwymiad hwn yn *Buddsoddi mewn gweithlu rhagorol: Cynnydd wrth ddatblygu cynllun datblygu'r gweithlu* (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/buddsoddi-mewn-gweithlu-rhagorol.pdf).

Mae ein cynllun datblygu'r gweithlu yn seiliedig ar ddatblygu'r nodweddion sylfaenol canlynol.

- Sicrhau bod yr elfennau galluogi, strwythurol o'n system ar waith a'u bod yn llwyddo i roi cymorth i gynllunio'r gweithlu'n effeithiol – mae angen i'n gwaith cynllunio fod yn seiliedig ar **lefel fanwl o wybodaeth a data** am yr athrawon a'r aelodau eraill o'r staff sy'n gweithio yn ein hysgolion. Er mwyn cyflawni hyn rydym yn rhoi'r strwythurau cymorth system gyfan cywir ar waith. Mae gwaith sylweddol eisoes yn mynd rhagddo i sicrhau mynediad at ddata o'r ansawdd gorau er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ac mae'r cynllun hwn i ddatblygu'r gweithlu yn amlinellu'r gwaith hwn yn fanylach.
- **Cydweithredu a chydweithio** sefydliadol i feithrin a rhannu arbenigedd a newid diwylliant. Gan weithredu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynllunio'r gweithlu, mae'n amlwg bod angen inni weithio gyda'n partneriaid ym mhob rhan o'r system i ddatblygu ein dull gweithredu cenedlaethol a gwireddu dyheadau'r cynllun cenedlaethol hwn i ddatblygu'r gweithlu. Mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio drwy'r system gyfan; mae gan lawer o'n partneriaid allweddol rolau pwysig i'w chwarae o ran cynllunio'r gweithlu. Ein rôl yw mynegi'r strategaeth gyffredinol a rhoi galluogwyr ar waith ond ni allwn sicrhau newid ar ein pennau ein hunain; mae gan y gweithlu, ei gyflogwyr,

ei gynrychiolwyr, a'r sefydliadau haen ganolog sy'n cefnogi'r gweithlu (megis y sefydliadau addysgu uwch sy'n darparu addysg gychwynnol i athrawon (AGA), yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, consortia gwella ysgolion rhanbarthol a Chyngor y Gweithlu Addysg), oll ran hollbwysig i'w chwarae er mwyn gwireddu'r cynllun hwn i ddatblygu'r gweithlu.

Fel gyda'n holl ddatblygiadau polisi byddwn yn gweithredu ar sail y dystiolaeth a'r ymchwil fwyaf cadarn sydd ar gael. Er mwyn llywio manylion ein gwaith byddwn yn defnyddio'r ymchwil sydd ar gael a, lle y bo angen, yn comisiynu ymchwil newydd i faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu a gwerthuso ein datblygiadau yn erbyn hyn. Mae hyn yn cynnwys meysydd megis patrymau gweithio, trefniadau gweithio'n hyblyg ac amodau gwaith yr holl staff. Bydd rhagor o waith dadansoddi yn cael ei wneud hefyd ar yr holl ddisgyblaethau a addysgir, sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ogystal â rolau arweinyddiaeth, a bydd hyn yn cyfrannu at y broses o lunio polisïau, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau cymorth i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r hyn a amlinellir yng nghynllun datblygu'r gweithlu yn waith newydd, gyda gweithgarwch eisoes yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, mae rhai meysydd o gynllun datblygu'r gweithlu lle mae'r meysydd polisi a'r camau gweithredu yn newydd neu'n gymharol annatblygedig ar hyn o bryd, er enghraifft mae angen inni weithio ar lefel genedlaethol ar gynllunio ar gyfer olyniaeth.

Mae angen inni adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo a chael darlun cydlynol o'r ffordd y mae pob elfen a gyflëir yma yn cyfrannu at ddatblygu'r gweithlu yn ei gyfanrwydd. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwella cydlyniaeth ffrydiau gwaith unigol ac yn sicrhau cysondeb drwy'r system gyfan. Bydd hyn yn rhoi gwell pwyslais ar gynllunio'r gweithlu gyda ffocws cadarn ar y bobl sy'n gyfrifol am ei gyflawni.

Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr o'n holl waith, o fewn cynllun datblygu'r gweithlu, rydym yn manylu ar y prif feysydd lle mae ein rhaglen ddiwygio yn sbarduno newid a lle rydym yn gwneud buddsoddiadau i sicrhau bod gan ein hysgolion y gweithlu sydd ei angen arnynt ac mae ein hathrawon yn cael eu cefnogi i fod y gorau y gallant fod.

Rydym yn ymrwymo i sicrhau bod cynllun datblygu'r gweithlu yn cefnogi ein dyhead am yr hyn rydym am i'r proffesiwn addysgu fod yma yng Nghymru, a bod y camau gweithredu a gymerwn yn cadw'r ffocws hwn a cheisio darparu proffesiwn:

- sy'n gydweithredol, o ansawdd uchel ac wedi'i lywio gan ddealltwriaeth ddofn o addysgeg a gwybodaeth am ddisgyblaeth
- sy'n rhoi sylw i ymchwil, sy'n wybodus ac sy'n dysgu o ragoriaeth ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol
- sy'n proffesiwn atyniadol lle mae morâl da a boddhad proffesiynol
- sydd wedi'i gefnogi'n dda gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol cymorth dysgu a all roi'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pob plentyn
- sy'n allblyg ac yn ymrwymedig i godi safonau o fewn a rhwng ysgolion
- sy'n gallu creu amgylcheddau bywiog, cynnes a gofalgar sy'n ysbrydoli plant i ddysgu
- sydd wedi'i arwain gan arweinwyr a fydd yn sicrhau y gall pob athro wella drwy gydweithio effeithiol, arloesi, dysgu proffesiynol a chyfleoedd i roi arweinyddiaeth broffesiynol i eraill.

Yn ogystal â'r gwaith a amlinellir yn y cynllun hwn i ddatblygu'r gweithlu, yn yr adolygiad annibynnol o gyflog ac amodau athrawon *Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr*, disgrifiodd Argymhelliad 3 ein cyfnod presennol o ddiwygio addysg fel 'moment mewn amser' i feddwl o'r newydd am y ffordd y caiff diwrnodau ysgol, tymhorau, staffio a chyfleusterau eu trefnu ar gyfer y dyfodol.

Sefydlwyd panel arbenigol, fel cam gweithredu cyntaf, i ystyried meysydd a nodwyd yn *Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr*. Gofynnir i'r panel arbenigol nodi gweledigaeth gyffredinol o system ysgolion flaengar. Bydd canlyniad y cam rhagarweiniol hwn yn dangos a oes awydd i ddechrau ar newid ehangach i'n system addysg, ac os felly, caiff comisiwn llawn ei sefydlu i baratoi argymhellion manylach a chynllun i ail-ddychmygu ein hysgolion yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â hynny, rydym hefyd wrthi'n datblygu trefniadau gwerthuso a gwella newydd (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/trefniadau-drafft-gwerthuso-a-gwella-atebolrwydd-ar-gyfer-cymru.pdf) i'w cyflwyno yn lle rhannau o'r system atebolrwydd cyfredol. Cydnabyddir, o ganlyniad i'r trefniadau a'r mesurau perfformiad presennol, fod ysgolion, yn anfwriadol, wedi cael eu hamlygu i negeseuon croes o bosibl ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig, a allai fod wedi troi ymdrechion oddi wrth ddysgu, addysgu a chodi safonau tuag at ddiwylliant o gydymffurfiaeth a biwrocratiaeth. Rydym am i'n trefniadau gwerthuso a gwella yn y dyfodol gefnogi'n well y newid mewn diwylliant sydd ei angen i gefnogi'r broses o gyflwyno a gwireddu Cwricwlwm i Gymru 2022. Rydym am i'r trefniadau gefnogi ein nod o godi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad, a darparu system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd. Rydym yn cydnabod drwy gyflawni'r nodau hyn y gallwn hefyd gael effaith gadarnhaol ar y gweithlu mewn ysgolion.

Mae'r trefniadau hyn yn cael eu llunio ar y cyd â chydweithwyr mewn ysgolion, Estyn, llywodraeth leol a chonsortia rhanbarthol, a bydd yn seiliedig ar waith ymchwil rhyngwladol. Mae'r trefniadau newydd yn cael eu datblygu'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â Chwricwlwm i Gymru 2022 a'r diwygiadau cysylltiedig ym maes arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, ADY, a'n huchelgais yn Strategaeth Cymraeg 2050 i gyrraedd miliwn o siaradwyr, ac yn helpu i wireddu hynny.

Mae'r trefniadau yn seiliedig ar y pedair egwyddor allweddol ganlynol. Byddant:

- yn deg – byddant yn hyrwyddo tegwch, cynhwysiant, dewis a llwybrau dysgu unigol ac yn sicrhau nad ydym byth yn colli golwg ar y dysgwr
- yn gydlynol – yn galluogi pob rhan o'r system i gydweithio heb orgyffwrdd, gyda rolau a chyfrifoldebau clir
- yn gymesur – yn sicrhau bod y broses o roi'r trefniadau newydd ar waith yn hydrin ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol
- yn dryloyw – yn cydnabod ehangder profiadau dysgu mewn ysgolion a'r gwerth y mae athrawon yn ei ychwanegu yn y dosbarth.

Wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella y mae proses hunanwerthuso gadarn a pharhaus i ysgolion. Bydd disgwyl i ysgolion roi trefniadau gwerthuso effeithiol ar waith i nodi eu cryfderau a’u blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan ddefnyddio ystod o ddata ansoddol a meintiol. Bydd canlyniadau’r trefniadau hunanwerthuso yn llywio blaenoriaethau gwella Cynllun Datblygu Ysgolion, a gaiff eu rhannu â rhanddeiliaid dros dair blynedd gyda naratif cyd-destunol.

Bydd trylwyredd a chymorth priodol yn cael eu sicrhau drwy drefn arolygu a rheoleiddio effeithiol a chyson sy’n gweithredu o fewn cyd-destun. Mae Adnodd Gwerthuso a Gwella Cenedlaethol (AGGC) yn cael ei ddatblygu a fydd yn hyrwyddo hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau fel nodweddion integredig o brosesau gwella effeithiol i ysgolion. Bydd yr AGGC yn cefnogi gwaith gwella ysgolion drwy roi egwyddorion gwerthuso, yn ogystal ag arweiniad ymarferol o ran casglu, gwerthuso a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol drwy nifer o weithgareddau. Bydd hyn yn helpu ysgolion i ddatblygu’r ymddygiad a’r arferion a fydd yn cefnogi diwygiadau.

Drwy’r trefniadau gwerthuso a gwella newydd byddwn hefyd yn gwahanu’r mesurau system gyfan a ddefnyddiwn ar gyfer atebolrwydd system oddi wrth y dangosyddion gwella hynny sydd eu hangen ar ysgolion i ysgogi eu gwelliant eu hunain. Rydym yn dechrau cefnu ar bwyslais anghymesur ar un neu ddau o fesurau perfformiad ac iddynt ffocws cul, gan symud tuag at ddiwylliant lle yr ystyrir ystod ehangach o ddangosyddion sy’n rhoi darlun gwell o’r profiad dysgu cyfan a chynnydd dysgwyr.

Rydym yn disgwyl i’r ffactorau hyn gael effaith gadarnhaol ar newidiadau i’r system, gan arwain at fwy o gydweithio rhwng ysgolion, a datblygu ymreolaeth fwy haeddiannol i ysgolion, sy’n arwain at system aeddfed sy’n hunanwella. Bydd y trefniadau newydd, yn eu tro, yn sicrhau’r canlyniadau addysgol gorau posibl i bob dysgwr. Ein nod yw datblygu trefniadau sy’n creu diwylliant ac amodau a fydd yn sicrhau llwyddiant cyn cyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022.



# Strwythur

Mae tair prif adran i'n cynllun datblygu'r gweithlu.

**1. Sicrhau'r sail strwythurol a'r cymorth cywir ar waith i gynllunio'r gweithlu**

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gwaith strwythurol sy'n cael ei wneud i wella'r system, fel ein gwaith i sicrhau bod gennym y data a'r wybodaeth gywir i adeiladu ein systemau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a'n gwaith ar ddatblygu strwythurau i gefnogi cyflog ac amodau yng Nghymru a sicrhau lles y gweithlu.

**2. Meysydd trawsbynciol**

Mae'r adran hon yn ymdrin â meysydd trawsbynciol allweddol, megis darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ADY, a ffurf y gweithlu sydd ei angen arnom er mwyn cyflawni gofynion Cwricwlwm i Gymru 2022.

**3. Recriwtio, camau cynnar yng ngyrfa athro, cadw athrawon a llwybrau gyrfa**

Mae'r adran hon yn dilyn taith unigolyn drwy'r proffesiwn, o addysg gychwynnol i athrawon (AGA) i gymhwyso, ymsefydlu, ac ymlaen fel dysgwr gydol oes, fel y gall ein camau gweithredu gael eu hystyried o safbwynt yr ymarferydd. Yn yr adran hon, mae ffocws penodol ar y gwaith newydd sy'n mynd rhagddo i atgyfnerthu a datblygu ein cymorth i ymarferwyr ar gamau cynnar yn eu gyrfa.

## Cynulleidfa

Mae'r gynulleidfa ar gyfer y cynllun hwn i ddatblygu'r gweithlu yn un eang, yn amrywio o sefydliadau haen ganol sydd wedi helpu i ddatblygu cynllun datblygu'r gweithlu ac a fydd yn hwyluso'r broses o gyflawni llawer ohono, i amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid, yn bennaf ymarferwyr o bob rhan o'r system. Mae hefyd yn berthnasol i lywodraethwyr a chyrff llywodraethu ysgolion drwy ein system gyfan.

## Amserlenni

Mae'r cynllun hwn i ddatblygu'r gweithlu yn disgrifio'n eithaf manwl y gweithgarwch hyd at 2021 ac, mewn rhai achosion, camau gweithredu clir sy'n mynd y tu hwnt i hynny. Bydd angen ailystyried ac adnewyddu cynllun datblygu'r gweithlu yn ystod 2021 er mwyn mynegi'r weledigaeth ar gyfer y tymor nesaf o lywodraeth a thu hwnt.



# 1. Sicrhau'r sail strwythurol a'r cymorth cywir ar waith i gynllunio'r gweithlu

## Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)

Mae angen i'n gwaith cynllunio fod yn seiliedig ar lefel fanwl o wybodaeth a data am yr athrawon a'r aelodau eraill o'r staff sy'n gweithio yn ein hysgolion. Er mwyn cyflawni hyn rydym yn rhoi'r strwythurau ategol system gyfan cywir ar waith. Un maes o'r fath yw cyflwyno'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY).

Cyflwynir y CBGY er mwyn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr am:

- faint y gweithlu
- demograffeg y staff
- recriwtio a chadw athrawon
- defnyddio athrawon cyflenwi
- absenoldebau
- y gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu am ddisgyblaethau penodol
- cost cyflogau athrawon yng Nghymru.

Drwy ddatblygu'r CBGY bydd modd cael llawer mwy o wybodaeth am y gweithlu ysgolion yng Nghymru mewn meysydd megis nodweddion y staff, y disgyblaethau a addysgir, y Gymraeg, recriwtio a chadw staff, yn ogystal â chyflog ac absenoldebau. Mae casglu'r wybodaeth hon bellach yn ofyniad statudol o dan Reoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017.

Caiff gwybodaeth o'r CBGY ei defnyddio i lywio polisi Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys cyflog ac amodau, recriwtio a chadw staff.

Caiff y data eu defnyddio i gynllunio'r gweithlu, gan gynnwys ystyried gofynion hyfforddiant posibl, disgybleathau a addysgir, defnyddio athrawon cyflenwi, a rolau ychwanegol y mae staff yn ymgymryd â nhw. Caiff y data eu defnyddio hefyd i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth y gweithlu ysgolion, a gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni Strategaeth Cymraeg 2050 drwy addysgu cyfrwng Cymraeg.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- cynnal y cam cyntaf o'r CBGY ym mis Tachwedd 2019
- cyhoeddi gwybodaeth am y gweithlu ysgolion yng Nghymru o wanwyn/haf 2020
- cynnal Cam 2 o'r CBGY ym mis Tachwedd 2020 – cynnal y CBGY llawn cyntaf.

**Meini prawf llwyddiant**

- Darparu data mwy cadarn, cywir ac amserol er mwyn galluogi gweithlu mwy effeithiol ac effeithlon a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn lleol ac yn genedlaethol.
- Symleiddio'r broses gasglu mewn ysgolion ac awdurdodau lleol, yn ogystal â gwella'n sylweddol ansawdd, amseroldeb a defnyddioldeb ystadegau ynglŷn â'r gweithlu ysgolion.
- Lleihau'r angen i gasglu data a chynnal arolygon o'r gweithlu ysgolion mewn ffordd ad hoc er mwyn llywio'r broses o ddatblygu polisïau neu fonitro cynnydd yn erbyn amcanion.
- Llywio polisïau ac arferion addysgol gan sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chywir mewn perthynas â'r gweithlu.
- Cynnig dull cyson o gasglu, nodi a chyhoeddi data, yn seiliedig ar egwyddor 'casglu unwaith, defnyddio llawer gwaith'.

## Cyflog ac amodau athrawon

Rydym yn cydnabod y gall fframwaith cyflog ac amodau penodol i Gymru gyfrannu at broffesiwn addysgu llawn cymhelliant. Mae cyflog ac amodau yn elfennau allweddol o gydnabod a gwobrwyo'r gwaith hollbwysig a wnânt dros y genedl, er nad y rhain yw'r unig ffactorau sy'n rhoi cymhelliant i'n hymarferwyr.

Daeth Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gyflog ac amodau athrawon ar 30 Medi 2018 a phenderfynodd Gweinidogion Cymru ar newidiadau i gyflog ac amodau i athrawon yng Nghymru am y tro cyntaf sy'n effeithiol o fis Medi 2019. Wrth bennu cyflog athrawon am y tro cyntaf, rydym wedi gwyro oddi wrth gynigion yn Lloegr drwy sicrhau y bydd y cyflog cychwynnol i athrawon yng Nghymru yn uwch. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo addysgu fel proffesiwn o ddewis i raddedigion a'r rhai sy'n newid gyrfa.

Sefydlwyd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) a bydd yn gyfrifol am wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyflog ac amodau athrawon ysgol yng Nghymru.

Mae'r Gweinidog Addysg yn paratoi cylch gwaith drafft blynyddol i'w ystyried gan fforwm partneriaeth ar gyflog, a fydd yn cynghori ar ei gynnwys cyn iddo gael ei gyflwyno i'r CACAC. O fewn cwmpas y cylch gwaith, bydd y CACAC yn asesu tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol sy'n cynrychioli cyflogwyr, ysgolion, y gweithlu addysgu yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r CACAC yn chwarae rôl hollbwysig o ran rhoi her strategol adeiladol, cymorth, cyfeiriad a dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu ysgolion yng Nghymru. Gan ddechrau yn ystod haf 2019, mae'n rhoi argymhellion i'r Gweinidog Addysg mewn adroddiad.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- sicrhau bod proses yr adolygiad blynyddol o gyflog a thelerau ac amodau athrawon yn gweithredu yn ôl amserlenni gofynnol er mwyn caniatáu i newidiadau gael eu cyflwyno ar 1 Medi bob blwyddyn
- sicrhau bod yr holl newidiadau gofynnol i delerau ac amodau statudol yn cysylltu ag amserlenni datblygiadau traws-sector arfaethedig, er enghraifft goblygiadau hawliad hyfforddiant athrawon.

**Meini prawf llwyddiant**

- Creu strwythur cyflog ac amodau sy'n cyfrannu at broffesiwn addysgu llawn cymhelliant ac sy'n sail i'r broses o sicrhau system addysg o ansawdd uchel.
- Sicrhau system agored a theg sy'n sicrhau ac yn cynnal lefelau priodol o gydnabyddiaeth i'r proffesiwn addysgu ac sy'n codi statws y proffesiwn, gan ein galluogi i ddenu, datblygu a chadw athrawon yn well, gan ganolbwyntio ar ein nodau penodol i godi safonau mewn ysgolion yng Nghymru.

## Rheoli llwyth gwaith a lleihau biwrocratiaeth

Mae *Cenhadaeth ein cenedl* yn cynnwys ymrwymiad i leihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth ddiangen drwy fod yn eglur ynglŷn â'r hyn sydd ei angen a'r hyn nad oes ei angen yn yr ystafell ddosbarth, a gwella'r defnydd o reolwyr busnes i gefnogi arweinwyr ysgol.

Mae'r Cytundeb Blaengar rhwng y Prif Weinidog a Kirsty Williams AC wedi ymrwymo i leihau biwrocratiaeth a llwyth gwaith diangen, gan gynnwys defnydd estynedig o reolwyr busnes fel y gall penaethiaid ac athrawon ymroi mwy o'u hamser i godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Ym mis Mawrth sefydlwyd gennym y Grŵp Rheoli Llwyth Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth ar y cyd ag uwch-gynrychiolwyr er mwyn ystyried materion llwyth gwaith sy'n effeithio ar y gweithlu ysgolion.

Wrth ymdrin â phryderon ynglŷn â'r llwyth gwaith bydd angen inni ystyried ar y cyd gamau a dulliau mwy ymarferol o gefnogi'r proffesiwn ym mhob haen. Un enghraifft o hyn yw'r Prosiect Rheolwyr Busnes Ysgolion sy'n cael ei adolygu er mwyn asesu ei effaith ar leihau'r llwyth gwaith. Rydym hefyd, ar y cyd ag Estyn, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ein partneriaid ymhlith undebau'r gweithlu a rhanddeiliaid eraill, wedi ariannu ac wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu *Lleihau Baich Gwaith – Canllaw i Athrawon a Phenaethiaid* sy'n anelu at

helpu athrawon i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl i ddysgwyr a lleihau llwyth gwaith athrawon ar yr un pryd. Mae'r canllaw yn nodi'r hyn y dylai ac na ddylai athrawon ei wneud o ran cynllunio ac addysgu; rhoi adborth i ddysgwyr; atebolrwydd, dadansoddi data a chynllunio strategol; a barn Estyn. Ategwyd hwn ymhellach gan ganllawiau a baratowyd gan Estyn (ar gael ar-lein yn www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/lleihau-baich-gwaith-athrawon-phenaethiaid?_ga=2.51625249.985152762.1571662633-2018120996.1571302767) a chanllawiau a hyfforddiant a gyflwynwyd gan gonsortia rhanbarthol.

Gwyddom fod nifer o feysydd yn effeithio ar y llwyth gwaith, biwrocratiaeth a lles cyffredinol ymarferwyr. Gwyddom fod penaethiaid ac athrawon sy'n rheoli'r llwyth gwaith yn dda yn cael effaith gadarnhaol, sylweddol ar les staff a'u cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Mae bron bob undeb athrawon wedi llunio canllawiau i gefnogi eu haelodau ac mae gan awdurdodau lleol aelodau penodol o staff sy'n gyfrifol am reoli iechyd galwedigaethol mewn ysgolion.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r effaith y gall materion yn y system ehangach ei chael o ran llwyth gwaith a lles, er enghraifft rydym yn edrych yn ofalus ar y ffordd y gellir ail-lunio'r trefniadau asesu, atebolrwydd a gwerthuso yng Nghymru er mwyn creu hinsawdd gefnogol lle y gall arweinwyr sefydlu systemau ar gyfer mesur a gwerthfawrogi effaith ar ddysgu a chefnogi system hunanwella gydweithredol a chadarn.

Rydym wedi ymdrin â materion sy'n ymwneud â llwyth gwaith a biwrocratiaeth hyd yma drwy amrywiaeth eang o gamau gweithredu ond mae angen gwneud rhagor er mwyn rheoli'n well y llwyth gwaith a'r canfyddiad o lwyth gwaith ychwanegol ar adeg o ddiwygiadau addysgol mawr a'i leihau lle y bo modd.

Mae angen inni i gyd wneud rhagor i gyfleu'r negeseuon ynglŷn â llwyth gwaith i'r sector ynghyd ag ystyried dulliau ymarferol o ymdrin â'r mater. Mae angen i Lywodraeth Cymru a sefydliadau haen ganol ddweud wrth ysgolion mewn ffordd gliriach beth ddylai ac na ddylai gael ei gasglu neu ei geisio gan ysgolion fel mater o drefn a thynnu sylw at arferion gorau'r sector a'u rhannu.

Fel llywodraeth, rydym yn cydnabod bod:

- rheoli'r llwyth gwaith yn well yn hollbwysig ar adeg o ddiwygiadau addysgol a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022
- angen inni gynnwys ein holl randdeiliaid a phartneriaid gan fod gofynion yn deillio o bob haen o fewn y system addysg
- angen cyfleu negeseuon clir ynglŷn â'r hyn sy'n ofynnol ac nad yw'n ofynnol
- cysylltiad â llwyth gwaith a lles y gweithlu fel rhan o'n hymagwedd ysgol gyfan tuag at les yn bwysig iawn.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- parhau i gynnal cyfarfodydd o'r Grŵp Rheoli Llwyth Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth gydag uwch-aelodau o bob haen addysgol er mwyn sicrhau newid a mynd i'r afael ag ymrwymiad ar y cyd i'r pedwar maes gwaith â blaenoriaeth a nodwyd ac a amlinellwyd yn natganiad llafar y Gweinidog Addysg ym mis Mehefin 2019. Y pedwar maes â blaenoriaeth yw:
  - datblygu Siarter Llwyth Gwaith a Lles gan gynnwys pecynnau cymorth ar gyfer llwyth gwaith a lles i'r gweithlu ysgolion
  - diwygio'r adnoddau a'r deunyddiau hyfforddiant ar Leihau Llwyth Gwaith a sicrhau eu bod ar gael yn hawdd ar Hwb
  - rhannu a dosbarthu'r modelau hyfforddiant a'r astudiaethau achos sydd eisoes wedi cael eu datblygu o fewn consortia rhanbarthol yn eang er mwyn meithrin dull gweithredu cenedlaethol cydlynus
  - cynnal ymarfer archwilio sector cyfan i weld pa ddata a gaiff eu casglu ar bob haen a sut y gellid ystyried asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith fel rhan o ddatblygu polisi
- gweithio gyda phob haen i roi cynlluniau gweithredu/strategaethau ehangach ar waith er mwyn rheoli'r llwyth gwaith, cefnogi lles a lleihau tasgau/gweithredoedd diangen ar bob lefel o'r system
- datblygu strategaeth glir yn y dyfodol i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn â llwyth gwaith a lles yn y tymor canolig a'r tymor hwy a pharhau i gydweithio gyda'r proffesiwn addysgol i ddatblygu cynlluniau cyflawni yn unol â hynny
- sicrhau gwaith cynllunio ar negeseuon clir a chyfathrebu ar bob haen er mwyn sicrhau bod y gweithlu ar bob lefel yn cael ei gefnogi'n llawn ac yn gwybod ac yn deall yr hyn sy'n ofynnol ganddo.

**Meini prawf llwyddiant**

- Mae penaethiaid, athrawon a staff cymorth yn deall yn llawn yr hyn sy'n ofynnol ac nad yw'n ofynnol ganddynt wrth ymgymryd â dyletswyddau eu contractau.
- Mae ein gweithlu yn unigolion gwybodus sy'n gallu ystyried eu llwyth gwaith eu hunain, nodi achosion o ddyblygu a biwrocratiaeth ddiangen a herio hynny fel y bo'n briodol.
- Mae rheoli llwyth gwaith a lles yn dda wedi cael effaith amlwg, gadarnhaol ar wella cyfraddau absenoldeb staff, gan gyfoethogi gwaith gwella ysgolion a helpu ysgolion i werthuso eu hunain a datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

# Athrawon cyflenwi

Mae athrawon cyflenwi yn elfen allweddol o'r gweithlu addysg. Rydym yn cydnabod rôl athrawon cyflenwi a'r angen i sicrhau bod gennym weithlu addysgu dros dro cymwysedig a gwybodus sydd wedi cael yr wybodaeth broffesiynol ddiweddaraf ac sy'n cael ei barchu.

Bu nifer o adroddiadau ac ymchwiliadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynglŷn ag ansawdd athrawon cyflenwi a'r ffordd y cânt eu defnyddio. Mae nifer o fesurau wedi cael eu mabwysiadu i gefnogi athrawon cyflenwi'n well a sicrhau bod addysgu a dysgu a gyflwynir ganddynt o safon uchel. Mae hyn yn cynnwys:

- treialu model clwstwr cyflenwi cyflogaeth uniongyrchol mewn ysgolion
- gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) i ddylanwadu ar newid a sefydlu fframwaith cytundebol sy'n addas at y diben ac sy'n ymdrin ag arferion recriwtio annheg
- paratoi canllawiau i egluro rolau a chyfrifoldebau i'r rhai sy'n cyflogi athrawon cyflenwi
- cyflwyno cyfrifon personol ar Hwb i athrawon cyflenwi er mwyn cyfoethogi eu dysgu proffesiynol a chefnogi datblygiadau o dan ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Rydym wedi gweithio gyda'r GCC er mwyn sicrhau fframwaith cytundebol cenedlaethol gwell i weithwyr asiantaeth. Mae'r fframwaith yn hyrwyddo tryloywder o ran y ffioedd y gall asiantaethau eu codi, yn cynnwys cyfraddau isafswm cyflog dyddiol i athrawon cymwysedig, gwell cyflog ac amodau a chymorth i athrawon newydd gymhwyso (ANGau) er mwyn bodloni eu gofynion o ran ymsefydlu, a chyflwyno dysgu proffesiynol perthnasol am ddim. Daeth y contract yn weithredol o'r flwyddyn academaidd 2019–20. Mae 27 o asiantaethau wedi bod yn llwyddiannus yn eu cynigion ar gyfer lotiau ar sail ddaearyddol/awdurdod lleol, sy'n cynnig rhywfaint o hyblygrwydd a chystadleuaeth ymhlith asiantaethau a mwy o ddewis i ysgolion, gan sicrhau'r safonau ansawdd gofynnol a disgwyliad y bydd athrawon cyflenwi yn cael o leiaf cyfraddau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Rydym hefyd yn sicrhau bod athrawon cyflenwi wedi'u hintegreiddio'n llawn yn ein datblygiadau dysgu proffesiynol. Mae'r swm o £24 miliwn a gyhoeddwyd i gefnogi ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn cynnwys cymorth i athrawon cyflenwi er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- gwerthuso'n ffurfiol gynllun peilot clwstwr cyflenwi mewn ysgolion a gafodd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno yn 2017–18, a chyhoeddi adroddiad yn ystod hydref 2019, a hyrwyddo'r broses o rannu astudiaethau achos o arferion gorau er mwyn helpu ysgolion i ystyried opsiynau cyflogaeth uniongyrchol
- gweithredu fframwaith cytundebol gwell i athrawon cyflenwi sy'n cynnwys safonau gofynnol, cyflog, a thelerau ac amodau i athrawon cyflenwi sydd wedi'u cofrestru ag asiantaethau sy'n rhan o'r fframwaith a gweithio gyda'r GCC i fonitro defnydd, effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth.

### Meini prawf llwyddiant

- Gwella cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth athrawon cyflenwi sy'n dewis gweithio'n hyblyg.
- Gwella ansawdd dysgu ac addysgu a gyflwynir gan ein hathrawon cyflenwi er mwyn gwella cyrhaeddiad dysgwyr a chefnogi gwelliannau ysgol.
- Mae cyflogwyr (ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol/llywodraethwyr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir) yn glir ynglŷn â chostau athrawon cyflenwi ac yn defnyddio'r trefniadau a'r dulliau defnyddio mwyaf priodol i reoli eu cyllidebau staffio dirprwyedig yn dda.



# 2. Meysydd trawsbynciol

## Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

O fis Medi 2021, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) newydd yn lle'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) bresennol yng Nghymru.

Yn ganolog i'r rhaglen o ddiwygiadau ADY mae gweithgarwch datblygu'r gweithlu. Bydd cyfran sylweddol o'r swm o £20 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid ADY yn cael ei defnyddio i ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg er mwyn sicrhau y bydd ymarferwyr yn gallu gweithredu'r system newydd yn effeithiol a gwella deilliannau dysgwyr.

Fel rhan o'n gwaith i godi ymwybyddiaeth ymhlith athrawon ac eraill a fydd yn rhan o'r broses o gyflwyno'r system ADY newydd, rydym wedi comisiynu'r gwaith o ddatblygu deunyddiau hyfforddiant ar weithredu ADY, wedi'u targedu at wahanol ymarferwyr drwy'r system gyfan er mwyn sicrhau bod pawb yn barod ar gyfer y newidiadau.

Bydd cydlynwyr ADY yn cymryd lle cydlynwyr AAA yn y system ADY newydd. Bydd cydlynwyr ADY yn hanfodol i lwyddiant y system newydd gan y byddant yn ymgymryd â rôl arwain strategol a nhw fydd yn cynnig cyngor ac arweiniad proffesiynol ADY yn y lle cyntaf. Bydd rôl cydlynwyr ADY yn statudol ym mhob ysgol prif ffrwd ac ym mhob coleg o Ionawr 2021 er mwyn iddynt gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y system newydd a bod y broses o'i rhoi ar waith mor ddidrafferth â phosibl. Er mwyn cydnabod hyn, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol penodol i gydlynwyr ADY.

Mae seicolegwyr addysg yn hanfodol i'r system ADY newydd a byddant yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod dysgwyr sydd ag ADY yn cael y cymorth cywir.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- datblygu cyfres o ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth ar y system ADY sy'n diwallu anghenion ymarferwyr a'r rhai sy'n cyflwyno'r system newydd
- datblygu cynnig dysgu proffesiynol penodol i gydlynwyr ADY
- ariannu ffioedd a bwrsarïau i ddeg o fyfyrwyr y flwyddyn ar raglen hyfforddiant proffesiynol tair blynedd Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Meini prawf llwyddiant**

- Gweithlu cwbl hyfforddedig o gydlynwyr ADY ledled Cymru.
- Lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system ADY newydd ymhlith ymarferwyr a rhieni/gofalwyr a phawb sy'n rhan o'r broses o gyflwyno'r system ADY newydd.
- Darparu cyflenwad posibl o seicolegwyr addysgol ar gyfer cyflogaeth gan awdurdodau lleol i gefnogi'r broses o ddarparu'r system AAA bresennol a'r system ADY newydd.

# Cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg

Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017, yn nodi ein huchelgais i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Gweledigaeth hirdymor yw hon, ac mae gan y system addysg gyfraniad allweddol i'w wneud.

Yn benodol, y cyfraniad hwn yw:

- cynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu addysg ddwyieithog
- sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael cyfle i feithrin ei sgiliau Cymraeg ddigon i allu defnyddio'r iaith yn gymdeithasol ac yn y gwaith
- cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg a disgyblaethau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn gwireddu'r ddau amcan uchod.

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn gosod targedau hirdymor ar gyfer cynyddu niferoedd athrawon, fel a ganlyn.

| Nifer yr athrawon cynradd sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| Gwaelodlin 2015–16 | Targed 2021 | Targed 2031 | Targed 2050 |
| 2,900 | 3,100 | 3,900 | 5,200 |

| Nifer yr athrawon uwchradd sy'n dysgu Cymraeg fel pwnc | | | |
|---|---|---|---|
| Gwaelodlin 2015–16 | Targed 2021 | Targed 2031 | Targed 2050 |
| 500 | 600 | 900 | 1,200 |

| Nifer yr athrawon uwchradd sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | | | |
|---|---|---|---|
| Gwaelodlin 2015–16 | Targed 2021 | Targed 2031 | Targed 2050 |
| 1,800 | 2,200 | 3,200 | 4,200 |

Felly, ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg, rydym yn gwybod eisoes beth yw ein targedau byrdymor, tymor canolig a hirdymor ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon. Fodd bynnag, mae angen inni ddefnyddio data a gwybodaeth yn well er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu a amlinellir isod yn cael effaith.

Yn ogystal â defnyddio ffynonellau data, mae angen inni wneud defnydd gwell o'r wybodaeth sydd gennym o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau), Cynlluniau Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif a Chynigion Trefniadaeth Ysgolion er mwyn deall ymhle y bydd ysgolion neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg newydd yn cael eu hagor dros y deng mlynedd nesaf, er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu. Bydd yr wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall ble y bydd angen inni gynyddu'r adnoddau addysgu er mwyn helpu i lywio'r niferoedd a dderbynnir ar raglenni addysg gychwynnol i athrawon (AGA) neu ddarpariaeth llwybrau amgen.

O ran uwchsgilio'r gweithlu presennol, caiff y CBGY cyntaf ei gynnal ym mis Tachwedd 2019 a bydd yn rhoi cyfle i gynllunio'r gweithlu ysgolion yn fwy effeithiol er mwyn defnyddio adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg yn y ffordd orau bosibl a sicrhau bod rhaglenni dysgu proffesiynol wedi'u targedu at yr ymarferwyr y mae angen iddynt ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mae *Cymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21* yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg, ac i wella'r ddarpariaeth Gymraeg yn y cwricwlwm drwy gefnogi pob ymarferydd i feithrin sgiliau Cymraeg.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn**

- datblygu sgiliau Cymraeg ac addysgu ymarferwyr yn barhaus, e.e. drwy'r Cynllun Sabothol
- atgyfnerthu'r cyflenwad o athrawon cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol – gan gynnwys camau gweithredu i farchnata, cymell a chryfhau AGA cyfrwng Cymraeg, camau i gefnogi myfyrwyr Cymraeg Safon Uwch, a darparu llwybrau amgen tuag at addysgu
- cefnogi dysgu ac arweinyddiaeth broffesiynol i atgyfnerthu arfer cyfrwng Cymraeg
- gwella data ar sgiliau cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r broses barhaus o gynllunio'r gweithlu mewn ffordd fwy strategol.

**Meini prawf llwyddiant:**

- Cyflawni'r targedau Strategaeth Cymraeg 2050 ar gyfer 2021.
- Cynyddu nifer yr ymarferwyr sydd â sgiliau Cymraeg lefel uwch.
- Mae pob arweinydd ysgol yn rhoi pwyslais cyson ar hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant o fewn ethos yr ysgol.
- Mae amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael sy'n diwallu anghenion ymarferwyr o ran datblygu sgiliau Cymraeg a'r gallu i addysgu disgyblaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

## Deall ffurf y gweithlu yn y dyfodol a modelu goblygiadau gwireddu Cwricwlwm i Gymru 2022

Mae addysg yng Nghymru yn mynd drwy gyfnod o newid na welwyd ei debyg o'r blaen. Bydd i'r broses o ddatblygu a gwireddu Cwricwlwm i Gymru 2022 goblygiadau o ran ffurf y gweithlu yn y dyfodol, sut y caiff y gweithlu ei ddefnyddio, y mathau o strwythurau rheoli a strwythurau gweithio i gefnogi Cwricwlwm i Gymru 2022, a'r cydberthnasau rhwng ysgolion er mwyn helpu i'w gyflwyno mewn camau a lleoliadau.

Mae rhai goblygiadau mwy amlwg i Gwricwlwm i Gymru 2022 ond bydd angen inni bellach ymgymryd â gwaith strwythuredig amrywiol i ddeall y goblygiadau i ffurf y gweithlu yn y dyfodol yn well a chynllunio'r ffordd orau o gefnogi'r newidiadau hyn ym mhob rhan o'r system.

Er enghraifft ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu rydym wedi nodi'r disgwyliad y bydd pob dysgwr yn dysgu iaith/ieithoedd rhyngwladol yn yr ysgol gynradd. Bydd hyn yn cynnig darpariaeth decach na'r fframwaith anstatudol presennol ar gyfer ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2. Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn annog dysgwyr i fod yn ymwybodol o'r cysylltiadau rhwng ieithoedd wrth iddynt ddod i ddeall tarddiad geiriau ac ennyn diddordeb mewn patrymau iaith. Cânt eu hannog i drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd ganddynt am y ffordd y mae ieithoedd yn gweithio, er enghraifft, yn Gymraeg ac yn Saesneg, i ddysgu a defnyddio ieithoedd rhyngwladol. Bydd y dull amlieithog hwn yn rhoi sylfaen gadarn i ddysgwyr ennyn diddordeb gydol oes mewn dysgu ieithoedd.

Fodd bynnag, bydd y dull hwn yn gofyn am fwy o uwchsgilio ymhlith y gweithlu, yn enwedig mewn ysgolion cynradd er mwyn i athrawon allu addysgu ieithoedd rhyngwladol ochr yn ochr â'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae iddo oblygiadau hefyd o ran recriwtio athrawon i'r proffesiwn a'r AGA a roddir iddynt. Mae hefyd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i rwydweithiau a chlystyrau o ysgolion gydweithio mewn partneriaeth er mwyn cynnig ieithoedd rhyngwladol.

Er nad yw iechyd a lles yn beth newydd yn ein cwricwlwm, mae creu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn newid i ymarferwyr ac unwaith eto bydd angen inni ymchwilio i'r goblygiadau i'r gweithlu sydd ynghlwm wrth hyn. Yn yr un modd, mae'r ffocws ar feysydd mwy newydd megis ffilm a'r cyfryngau digidol, ynghyd â newid cymdeithasol a datblygiadau digidol bythol gynyddol i gyd yn feysydd lle mae angen inni ystyried ac ymateb iddynt o ran y goblygiadau i'r gweithlu.

Yn gyffredinol, bydd y newid i gwricwlwm sy'n seiliedig ar ddibenion a meysydd dysgu a phrofiad yn newid y ffordd y mae ysgolion yn meddwl am strwythurau arwain a rheoli ac unwaith eto bydd angen inni ystyried pa oblygiadau a ddaw yn sgil hyn o ran yr hyn y byddwn yn ei fynnu gan a thros ein gweithlu yn y dyfodol.

Ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad bydd angen inni ymchwilio'n ofalus a chwmpasu'r dysgu proffesiynol sydd ei angen ar ymarferwyr drwy'r proffesiwn cyfan. Mae'n rhaid inni hefyd ystyried pa oblygiadau sydd o ran ffurf y gweithlu yn y dyfodol a strwythurau ysgolion.

Y tu hwnt i Gwricwlwm i Gymru 2022 bydd angen hefyd inni ystyried a chynllunio ar gyfer newidiadau demograffig ac ymddygiadol a'u goblygiadau. Er enghraifft, gwyddom fod nifer y dysgwyr sy'n astudio ieithoedd rhyngwladol wedi bod yn lleihau ac y gall fod goblygiadau o ran argaeledd pobl â'r sgiliau hyn, sy'n wir hefyd am rai celfyddydau creadigol fel cerddoriaeth.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- ystyried y goblygiadau i ffurf y gweithlu yn y dyfodol sy'n codi o bob maes dysgu a phrofiad drwy ddefnyddio nifer o ddulliau megis:
  - defnyddio ein Hysgolion Braenaru i brofi goblygiadau ymarferol gwireddu Cwricwlwm i Gymru 2022 – bydd yr Ysgolion Braenaru yn gweithio gyda'r cwricwlwm newydd, gan ystyried sut i'w roi ar waith, nodi prosesau ar lefel ysgolion i ysgolion eu defnyddio i archwilio'r materion hyn a datblygu eu modelau seilwaith eu hunain, gan rannu'r dulliau gweithredu hyn â'r rhwydwaith ysgolion ehangach a fydd yn helpu pob ysgol i ystyried sut y bydd yn mynd i'r afael â hyn
  - defnyddio'r rhwydweithiau cenedlaethol newydd ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad i lywio gwaith ar y goblygiadau sy'n codi o bob maes dysgu a phrofiad unigol.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, ac i helpu ymarferwyr i newid eu hymarfer, bydd ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar waith er mwyn sicrhau adnoddau (gan gynnwys y swm ychwanegol o £24 miliwn), amser (gan gynnwys diwrnodau HMS ac amrywiaeth o adnoddau i gefnogi ysgolion) a chynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr i ymarferwyr mewn swydd (gweler adran 3).

**Meini prawf llwyddiant**

- Gwerthusiad cynhwysfawr o oblygiadau llawn Cwricwlwm i Gymru 2022 fel sail ar gyfer tybiaethau cynllunio yn y dyfodol.
- Mae ysgolion yn ymwybodol o'r goblygiadau sydd ynghlwm wrth wireddu Cwricwlwm i Gymru 2022.
- Mae cymorth ar waith i ysgolion i'w helpu i wneud unrhyw newidiadau.
- Mae darpariaeth AGA ar waith sy'n paratoi ymarferwyr newydd i fodloni gofynion ymarfer Cwricwlwm i Gymru 2022.



# 3. Recriwtio, camau cynnar yng ngyrfa athro, cadw athrawon a llwybrau gyrfa

Rydym yn cydnabod bod angen i’n strategaeth a’n cynllun datblygu’r gweithlu ymdrin â chyfnodau allweddol bywydau gwaith ymarferwyr. At ddiben y cynllun datblygu’r gweithlu rydym wedi rhannu’r camau gyrfa fel a ganlyn.

**Recriwtio** gan gynnwys:

- hyrwyddo addysgu fel gyrfa
- addysg gychwynnol i athrawon (AGA)
- cymhellion â ffocws newydd
- llwybrau newydd at addysgu.

**Camau cynnar yng ngyrfa athro** sy’n amlinellu’r ffordd y rhoddwn gymorth gyrfa gynnar, gan gynnwys:

- ailstrwythuro’r cyfnod ymsefydlu statudol
- datblygu rhaglen o gymorth i athrawon newydd gymhwyso (ANGau) (gan gynnwys datblygu rhaglen hyfforddi a mentora genedlaethol, a phecyn dysgu proffesiynol cenedlaethol i’r rhai ar gamau cynnar yn eu gyrfa)
- cynigion ar gyfer cymhwyster lefel Meistr a fyddai ar gael i’r rhai sy’n camu ymlaen o flynyddoedd cynnar eu gyrfa.

**Cadw athrawon a chamu ymlaen mewn gyrfa** gan gynnwys:

- safonau proffesiynol
- rheoli perfformiad
- dysgu proffesiynol a’r rhwydweithiau cenedlaethol
- arweinyddiaeth, gan gynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth.

# Recriwtio

## Hyrwyddo addysgu, recriwtio athrawon a'u hyfforddi ar gyfer y proffesiwn

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod addysgu fel proffesiwn yn cael ei hyrwyddo'n dda a'i ystyried yn ddewis atyniadol ym maes cystadleuol recriwtio graddedigion. Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn defnyddio'r llwyfan Darganfod Addysgu ar gyfer ein hymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu cyfredol. Yn sail i hyn bu gwaith amrywiol i nodi cymhelliant a rhwystrau i fod yn athro yng Nghymru.

Mae strategaethau ymgyrchoedd cyfredol wedi targedu:

- cynorthwywyr addysgu lefel gradd – cynorthwywyr addysgu llawn brwdfrydedd sydd o bosibl yn ystyried cymryd y cam nesaf yn eu gyrfa a datblygu
- is-raddedigion cyfrwng Cymraeg – sy'n astudio disgyblaethau â blaenoriaeth
- graddedigion/y rhai sy'n newid gyrfa – y rhai sydd wedi graddio yn y disgyblaethau a dargedir ac sydd wedi dechrau eu gyrfa mewn meysydd eraill.

Mae'r cyfrifoldeb am lwyfan Darganfod Addysgu bellach yn symud i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a bydd yn gyfrifol am redeg y llwyfan yn ogystal â chwmpasu a datblygu strategaeth farchnata tair blynedd er mwyn helpu i hyrwyddo addysgu fel gyrfa.

Unwaith y byddwn wedi denu a recriwtio unigolion o'r safon briodol ar gyfer AGA mae'n hollbwysig bod y ddarpariaeth o'r ansawdd gorau. Rydym eisoes wedi gwneud diwygiadau ac wedi rhoi trefniadau achredu ar waith ar gyfer darpariaeth AGA newydd a fydd yn diwygio'r ffordd y caiff addysg athrawon ei chyflwyno yng Nghymru yn sylweddol.

Yn ogystal â'r trefniadau achredu mwy trylwyr newydd, sy'n cynnwys Bwrdd Achredu Addysg Athrawon newydd ei ffurfio (2017) Cyngor y Gweithlu Addysg, o dan yr AGA ar ei ffurf ddiwygiedig bydd yn rhaid i bartneriaethau AGA achrededig newydd ddylunio a darparu cyrsiau sy'n ategu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru 2022 ac sy'n ymdrin â'r chwe maes dysgu a phrofiad er mwyn datblygu athrawon yn y dyfodol a fydd yn diwallu anghenion pob dysgwr.

Mae'r meini prawf yn cydnabod gwerth system AGA wirioneddol gydweithredol a'r gwahaniaeth y gall ei wneud, lle mae sefydliadau addysg uwch ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth wirioneddol. Mae'r meini prawf yn amlinellu model lle mae gan ysgolion a sefydliadau addysg uwch ran gyfartal i'w chwarae o ran cynnig y cydbwysedd rhwng theori ac ymarfer er mwyn sicrhau profiad o ansawdd da i'n hathrawon yn y dyfodol.

Ein nod yw datblygu cyfres gyflawn o lwybrau cydlynol o ansawdd tuag at addysgu, gan gefnogi athrawon sydd newydd ddechrau drwy eu AGA er mwyn ennill statws athro cymwysedig (SAC). Rydym am i bob llwybr gynnig yr un weledigaeth a'r ddealltwriaeth o'r gweithlu addysgu i Gymru yn y dyfodol a diwallu anghenion darpar athrawon talentog ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.

Y ddau lwybr amgen newydd tuag at addysgu a ychwanegwyd yw'r diwygiad diweddaraf mewn cyfres o ddiwygiadau sydd â'r nod o chwyldroi'r ffordd y darperir AGA yng Nghymru. Yn dilyn proses gaffael mae'r Brifysgol Agored wedi cael ei phenodi fel ein partneriaid datblygu a chyflawni ar gyfer y ddau lwybr newydd. Y llwybrau hyn yw:

- **tystysgrif addysg i raddedigion (TAR) rhan amser** – er mwyn cynnig dewis amgen o ansawdd uchel yn lle astudio AGA llawn amser gan ddileu'r angen i fyfyrwyr deithio dim ond i ddilyn y rhaglen AGA a ddewiswyd ganddynt; gan gadw'r profiad yn yr ysgol, gallai myfyrwyr hefyd ryngweithio â'u darlithwyr a'u cyd-fyfyrwyr ar-lein, a dileu unrhyw rwystrau a allai gael eu hachosi gan eu lleoliad neu eu pellter o brifysgol

- **cynllun ar sail cyflogaeth newydd** gyda TAR – i athrawon dan hyfforddiant a gyflogir mewn ysgol o'r cychwyn, wedi'i dargedu at feysydd â blaenoriaeth er mwyn helpu consortia rhanbarthol i fynd i'r afael â phrinder athrawon a welwyd mewn ysgolion fesul rhanbarth.

Bydd hwn yn cynnig tri llwybr tuag at addysgu yng Nghymru, pob un yn wahanol ond o'r un ansawdd a thrylwyredd sy'n arwain at SAC:

- rhaglenni AGA llawn amser (i israddedigion a TAR)
- TAR rhan amser
- ein cynllun ar sail cyflogaeth newydd.

Mae angen hefyd inni adolygu'r defnydd o dargedau ar gyfer recriwtio i raglenni AGA. Caiff gofynion derbyn AGA cyffredinol eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru ar sail gwybodaeth ystadegol yn dilyn diweddariadau i Fodel Cynllunio a Chyflenwi Athrawon. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda CGA sy'n darparu data i lywio'r model ac sy'n dadansoddi'r galw er mwyn llywio'r broses. Mae'r model hwn yn ystyried amcanestyniadau demograffig o ddysgwyr, cyfraddau swyddi gwag athrawon, a nifer yr athrawon cofrestredig. Mae'r lefel recriwtio wedi aros yn eithaf cyson dros y blynyddoedd diwethaf ond erys islaw'r targed mewn rhai meysydd.

Rydym yn cydnabod, hyd yn oed pan fydd addysgu yn cael ei hyrwyddo'n dda ac yn cynnig gyrfa atyniadol ar ôl graddio, gydag addysg wych i athrawon er mwyn paratoi newydd-ddyfodiaid ar gyfer y proffesiwn, fod meysydd recriwtio lle y bydd angen cymhellion o bosibl i recriwtio graddedigion o'r safon briodol, neu helpu i recriwtio mewn disgyblaethau â blaenoriaeth.

Mae cymhellion recriwtio wedi bod ar gael ers blynyddoedd lawer ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cymhellion wedi cael eu targedu at y graddedigion hynny sydd â lefelau uchel o wybodaeth am ddisgyblaeth ar lefel gradd sy'n hyfforddi i addysgu disgyblaethau â blaenoriaeth. Mae'r cynllun cymhellion presennol wedi parhau ar gyfer 2019–20 wrth i ymchwil gael ei chynnal. Fodd bynnag, yn dilyn cyfres o brosiectau ymchwil i effeithiolrwydd cymhellion a'r defnydd a wneir ohonynt mewn proffesiynau a gwledydd eraill rydym wedi diwygio ein cynlluniau cymhellion gan roi ffocws newydd iddynt ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020–21.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- sefydlu strategaeth gyfathrebu gwbl weithredol ar gyfer hydref 2019
- sefydlu llwyfan digidol newydd sy'n hyrwyddo addysgu erbyn mis Mai 2020 a gwell llwyfan ar gyfer Darganfod Addysgu a fydd yn gwbl weithredol erbyn mis Ionawr 2021
- cynnal ymarfer cynhwysfawr o wersi a ddysgwyd ar ôl y cylchoedd achredu cyntaf (llwybrau llawn amser ac amgen) ac ail-fireinio ein dull gweithredu os oes angen
- datblygu dull strategol o recriwtio athrawon dan hyfforddiant er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau recriwtio isel – bydd hyn yn cynnwys adolygiad o Fodel Cynllunio a Chyflenwi Athrawon, y targedau, a lefelau recriwtio wedi'u capio
- cynnal amrywiaeth eang o ymchwil a fydd yn ystyried cymhellion a strategaethau recriwtio erbyn hydref 2019
- cyflwyno cynlluniau cymhellion diwygiedig erbyn mis Ionawr 2020 i'w defnyddio yn y flwyddyn academaidd 2020–21
- monitro'r lefelau recriwtio yn y meysydd hynny lle ceir cymhellion, gan sicrhau eu bod yn cynyddu i'r lefelau sydd eu hangen arnom
- gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno dogfennau achredu i CGA ar gyfer y cynllun seiliedig ar gyflogaeth (gwyddoniaeth uwchradd) erbyn Hydref 2019, gyda'r carfan cyntaf erbyn gwanwyn 2020
- gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r carfanau cyntaf o TAR ran amser mis Medi 2020.

**Meini prawf llwyddiant**

- Mae rhaglenni AGA yn gadarn ac yn effeithiol o ran denu a hyfforddi athrawon newydd o ansawdd uchel i'r proffesiwn.
- Lefelau recriwtio cynyddol ym mhob un o feysydd hyfforddi athrawon heb unrhyw effaith niweidiol ar feysydd â blaenoriaeth.
- Cynyddu'r lefel recriwtio yn y meysydd hynny lle ceir cymhellion.
- Cyrraedd y niferoedd a ragwelir ar gyfer llwybr y cynllun ar sail cyflogaeth a'r llwybr rhan amser.
- Mae mesurau amrywiaeth yn dangos bod y gweithlu addysgu yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethant.
- Mae'r llwybr TAR rhan amser a llwybr cynllun ar sail cyflogaeth yn ymsefydlu ac yn cael eu cynnwys yn y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon fel agwedd allweddol ar recriwtio a chynllunio'r gweithlu i'r proffesiwn.

## Camau cynnar yng ngyrfa athro

Rydym yn cydnabod bod y camau cynnar yng ngyrfa athro yn cynnwys rhai o'r blynyddoedd pwysicaf oll. Mae'r cymorth a'r ysbrydoliaeth a roddir i ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa yn llywio eu hymarfer yn sylfaenol ac mae ein cymorth ar gamau cynnar yng ngyrfa athro mor hollbwysig a sylfaenol â'r cyfnod paratoi a ddarperir gan AGA.

Roedd y panel arbenigol a gyflwynodd adroddiad ar *Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr* o'r farn bod dechrau'r proffesiwn yn rhy sydyn o ran y symud o hyfforddiant i gymhwyso.

Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn ceisio sicrhau bod pobl sy'n cwblhau eu blwyddyn ymsefydlu yn athrawon da ond mae mentora a chymorth ffurfiol yn dod i ben ar ôl blwyddyn lwyddiannus yn yr ysgol ac mae galw am i gymorth gael ei gynnig i athrawon dros gyfnod hwy. Awgrymodd argymhellion o *Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr* y dylai dysgu proffesiynol ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa gael ei gefnogi'n agos tan ddiwedd y bedwaredd flwyddyn o'u gyrfa.

Mewn ymateb i hyn mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid datblygu Pecyn Cymorth Gyrfa Gynnar i ymarferwyr yng Nghymru. Byddai elfennau'r pecyn hwn yn cynnwys:

- ffocws newydd ar ymsefydlu ac adolygiad o'r trefniadau presennol
- datblygu llwybr a chwricwlwm ymsefydlu cenedlaethol mewn ffordd gydweithredol, gan gynnwys meysydd allweddol o'r diwygiadau i'r cwricwlwm a chymorth penodol o ran arbenigo mewn disgyblaethau i ymarferwyr uwchradd
- datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi a mentora benodol genedlaethol
- pecyn dysgu proffesiynol cenedlaethol i athrawon ar gam cynnar yn eu gyrfa
- datblygu cymhwyster lefel Meistr newydd i gefnogi'r rhai sy'n mynd drwy flynyddoedd cynnar eu gyrfa a'r ymarferwyr mwy sefydledig hynny y tu hwnt i'r camau cynnar hyn.

## Ymsefydlu statudol i athrawon newydd gymhwyso (ANGau)

Ar ôl sicrhau SAC ar ddiwedd AGA, rhaid i bob athro newydd gymhwyso (ANG) gwblhau cyfnod ymsefydlu yn llwyddiannus er mwyn gallu gweithio fel athro mewn ysgol a gynhelir. Mae ANGau yn cael blwyddyn (neu amser cyfatebol i'r rhai sy'n gweithio'n rhan amser neu fel athrawon cyflenwi byrdymor) i fyfyrio ar eu hymarfer a chasglu tystiolaeth i ddangos eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol a'r disgrifyddion perthnasol. Mae ANGau yn gweld y safonau proffesiynol ar gyfer athrawon ac arweinwyr, ac ymarferwyr sy'n cynorthwyo addysgu mewn ysgolion, ac yn cofnodi eu tystiolaeth drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol ar-lein a gynhelir gan CGA.

Yn ystod y cyfnod ymsefydlu, mae pob ANG yn cael ei fentora a'i oruchwylio gan fentor â chymwysterau addas (wedi'i leoli yn yr ysgol fel arfer). Sicrheir safon ansawdd y trefniadau gan ddilyswr allanol cyn y gwneir argymhelliad ar ganlyniad y cyfnod ymsefydlu (llwyddo/methu/estyniad). Mae'r corff priodol (o fewn yr awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol) yn gwneud y penderfyniad terfynol, sydd wedyn yn destun proses graffu drwy'r broses gymedroli genedlaethol.

Mae datblygu proffesiwn addysgol o ansawdd uchel yn ganolog i wireddu Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae ymsefydlu statudol yn nodwedd bwysig ar ein system sy'n:

- adeiladu ar y profiadau a geir yn ystod AGA er mwyn cefnogi twf proffesiynol drwy gydol gyrfa
- helpu ANGau i gael y dechrau gorau i'w gyrfa fel athrawon
- rhoi cyfle i bob ANG ddatblygu ei ymarfer drwy ganolbwyntio ar y gofynion a nodir yn y safonau proffesiynol
- paratoi pob ANG ar gyfer ei yrfa fel athro drwy feithrin y sgiliau a'r ymddygiadau y mae angen iddo adeiladu arnynt drwy gydol ei gyrfa
- sicrhau bod ANGau yn barod i wynebu heriau'r agenda diwygio addysg.

## Dulliau newydd o roi cymorth ar gam cynnar yng ngyrfa athro a dysgu proffesiynol

Fel yr amlinellwyd rydym am gynyddu lefel y cymorth sydd ar gael i ymarferwyr ar gamau cynnar yn eu gyrfaoedd. Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar hyfforddi a mentora gyda rhaglen hyfforddi a mentora benodol a chyfres o safonau ar gyfer cymorth mentoriaid ynghyd â rhaglen o ddysgu proffesiynol cyffredin i fentoriaid. Bydd hyn yn sicrhau cymorth o'r ansawdd gorau i ymarferwyr yn ystod blynyddoedd eu cyfnod ymsefydlu ac yn sicrhau gweithlu o fentoriaid cymwysedig sy'n gyson â ffactorau ysgogi'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol.

Rydym hefyd yn bwriadu datblygu pecyn dysgu proffesiynol cenedlaethol ar gyfer blynyddoedd cynnar gyrfa athro sy'n paratoi athrawon i fod yn ddysgwyr gydol oes ac yn creu dealltwriaeth o fewn ein hymarferwyr bod dysgu proffesiynol yn broses a disgwyliad gydol gyrfa. Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r consortia rhanbarthol i ddatblygu'r pecyn hwn ar gyfer y blynyddoedd o'r cyfnod ymsefydlu hyd at flwyddyn yrfa pump. Bydd hyn yn cynnig cysondeb a chydlyniad o ran yr hyn a gyflwynir i bob athro yn ystod blynyddoedd un i bump o ymarfer.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i ddatblygu cymhwyster lefel Meistr cyffredin i'w gyflwyno ledled Cymru drwy gytundebau cilyddol rhwng ein partneriaid sefydliadau addysg uwch.

### Yn ystod 2019–21 byddwn yn:

- ystyried y ffordd y mae ANGau yn defnyddio'r safonau proffesiynol yn ystod y cyfnod ymsefydlu fel rhan o werthusiad ehangach o effaith y safonau proffesiynol o fewn y proffesiwn
- adolygu trefniadau ymsefydlu yng Nghymru yng ngoleuni'r argymhelliad yn *Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr* a newidiadau i drefniadau yn Lloegr
- cynnal ymchwil er mwyn deall yn well y ffactorau sy'n arwain at gwblhau'r cyfnod ymsefydlu'n llwyddiannus drwy'r llwybr cyflenwi byrdymor
- adolygu rhaglenni cymorth consortia rhanbarthol i ANGau sy'n mynd drwy'r cyfnod ymsefydlu, a chydweithio i ddatblygu llwybr ymsefydlu cenedlaethol
- ystyried rôl cyflog ac amodau a chymhellion o ran hwyluso trefniadau ymsefydlu yng Nghymru
- datblygu rhaglen hyfforddi a mentora genedlaethol i ANGau a'r rhai yn eu pedair blynedd gyntaf o addysgu
- datblygu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol ar y cyd â'r consortia rhanbarthol er mwyn cefnogi athrawon o'r cyfnod ymsefydlu ac yn ystod camau cynnar yn eu gyrfaoedd
- parhau i ddatblygu rhaglen lefel Meistr newydd i athrawon
- rhoi trefniadau ymsefydlu newydd ar waith yng Nghymru.

**Meini prawf llwyddiant**

- Mae trefniadau ymsefydlu yn fwy cadarn, tryloyw a chyson rhwng y rhanbarthau.
- Mwy o gysondeb rhwng yr AGA a'r cyfnod ymsefydlu.
- Cyfraddau cadw gwell o ran ANGau yn eu pum mlynedd cyntaf o ymarfer.

# Cadw athrawon a chamu ymlaen mewn gyrfa

## Safonau proffesiynol i athrawon, arweinwyr a'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu

Mae safonau proffesiynol yn disgrifio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau sy'n nodweddu ymarfer rhagorol ac yn cefnogi twf proffesiynol. Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i adolygu ac ailbennu'r safonau proffesiynol i athrawon ac arweinwyr yn ogystal ag ymarferwyr sy'n cynorthwyo addysgu mewn ysgolion.

Bwriedir i safonau proffesiynol:

- pennu disgwyliadau clir ynglŷn ag ymarfer effeithiol yn ystod gyrfa ymarferydd, gan gynnwys ymuno â'r proffesiwn, lle y bo'n gymwys
- galluogi ymarferwyr i fyfyrio ar eu hymarfer, yn unigol ac ar y cyd, yn erbyn safonau ymarfer effeithiol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a chadarnhau a dathlu eu llwyddiannau
- gweithredu'n gyson â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a helpu ymarferwyr i nodi meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach
- bod yn gefnlen i'r broses rheoli perfformiad.

Mae'r safonau proffesiynol yn adlewyrchu ymarfer sy'n gyson â gwireddu Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae ymarferwyr yn ymgysylltu â'r safonau drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol a gynhelir gan CGA.

Mae'r safonau wedi cael eu cyflwyno fesul cam.

| | |
|---|---|
| **Medi 2017** | Mae ANGau sy'n mynd drwy gyfnod ymsefydlu yn defnyddio'r safonau proffesiynol.<br><br>Mae'r safonau proffesiynol ar gael i bob athro ac arweinydd arall eu mabwysiadu dros y flwyddyn i ddod pan fo'n gyfleus iddynt. |
| **Medi 2018** | Mae'n ofynnol i bob athro ac arweinydd ddefnyddio'r safonau proffesiynol (gofyniad statudol). |
| **Mai 2019** | Cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu. |
| **Gorffennaf 2019** | Llunio'r safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu yn derfynol a'u cyhoeddi. |
| **Medi 2019** | Safonau proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu yn cael eu defnyddio gan ysgolion ar sail wirfoddol. |

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- gwerthuso'r defnydd a wneir o'r safonau proffesiynol gan athrawon, arweinwyr ac ANGau a'u heffeithiolrwydd yng nghyd-destun rheoli perfformiad, Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) a'r cyfnod ymsefydlu statudol
- datblygu safonau proffesiynol ar gyfer Cynghorwyr Herio rhanbarthol a'r rhai sy'n cefnogi gwaith gwella ysgolion.

**Meini prawf llwyddiant**

- Mwy o ddefnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol i fyfyrio ar y safonau proffesiynol.
- Adborth cadarnhaol ar y safonau proffesiynol gan y Prosiect Gwerthuso Safonau.

## Rheoli perfformiad

Er mwyn sicrhau y caiff Cwricwlwm i Gymru 2022 ei gyflwyno'n effeithiol, mae'n rhaid inni fod yn glir ynglŷn â'r pethau hynny rydym am roi gwerth arnynt a'u mesur drwy'r system gyfan – o ran dysgwyr a'u hathrawon, ysgolion a'u harweinwyr, a'r holl bartneriaid sy'n chwarae rolau allweddol yn y system.

Nodir gofynion polisi rheoli perfformiad ysgol yn Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011. Ceir canllawiau anstatudol gan Lywodraeth Cymru i gyd-fynd â'r rheoliadau, cyhoeddwyd yn 2012 ac ar gael ar Hwb yn hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/rheoli-perfformiad.

Mae llawer wedi newid ers i'r rheoliadau hyn gael eu cyflwyno ac mae angen eu diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r weledigaeth ar gyfer addysg. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth; y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol; diwygio AGA; cyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022; fframwaith cymwysterau sy'n datblygu a lansio'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru.

Ar ôl datganoli cyflog ac amodau athrawon i Lywodraeth Cymru, mae ymrwymiad yn *Cenhadaeth ein cenedl* i ddatblygu fframwaith ar gyfer system cyflog ac amodau sy'n cyfrannu at broffesiwn addysgu llawn cymhelliant a fydd yn sail dros gyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae *Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr* yn cyflwyno nifer o argymhellion ynglŷn â threfniadau cyflog ac amodau yn y dyfodol yng Nghymru. Un ohonynt yw:

> 'dylai cynnydd mewn cyflog, i athrawon a phenaethiaid, ddibynnu ar broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol sy'n cynnwys ystyriaeth o'r cyfraniad at 'Cenhadaeth ein Cenedl', maint ac effaith cydweithredu ag ysgolion eraill, effaith dysgu proffesiynol ar addysgeg, yn ogystal â deilliannau'r disgyblion yn yr ysgol.'

At hynny, mae model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu i Gymru yn helpu ysgolion i ddatblygu diwylliant dysgu proffesiynol drwy rannu gwybodaeth a phrofiad ag ysgolion eraill. Drwy ymgysylltu â'r model bydd modd ysbrydoli dulliau newydd o ddysgu proffesiynol a helpu ysgolion i roi Cwricwlwm i Gymru 2022 ar waith yn llwyddiannus. Mae'n bwysig bod proses rheoli perfformiad ysgolion yn gyson â'r safonau proffesiynol newydd ac yn cefnogi'r model hwn.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- adolygu trefniadau rheoli perfformiad gyda'r nod o newid y pwyslais i fod ar adolygu datblygiad proffesiynol
- treialu trefniadau newydd i benaethiaid ac athrawon
- ystyried sut y gellir adolygu datblygiad proffesiynol i gynorthwywyr addysgu a threialu trefniadau os tybir bod hynny'n briodol.

**Meini prawf llwyddiant**

- Mae pob ymarferydd yn defnyddio'r trefniadau adolygu datblygiad proffesiynol newydd o fis Medi 2022.
- Mae pob ymarferydd yn myfyrio ar y safonau proffesiynol i lywio eu hadolygiadau o ddatblygiad proffesiynol.
- Mae gwybodaeth o adolygiadau o ddatblygiad proffesiynol yn cael ei defnyddio i lywio cynlluniau datblygu ysgolion ac anghenion dysgu proffesiynol ymarferwyr.

## Dysgu proffesiynol a'r rhwydweithiau cenedlaethol

Rydym yn ymrwymedig i archwilio sut y gallwn gyflwyno hawl Gymreig i ddysgu gydol oes i fuddsoddi yn y sgiliau sydd eu hangen ar bobl drwy gydol eu bywydau er eu budd unigol ac er budd ein heconomi, ein cymunedau a'n cymdeithas. O fewn y cyd-destun hwn, ac fel darparwyr rheng flaen, credwn fod yn rhaid i'n hymarferwyr addysg gael eu cefnogi i arfer eu hawl eu hunain i barhau i ddysgu. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob ymarferydd addysgol yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022. Lansiwyd Dull Cenedlaethol newydd ar gyfer Dysgu Proffesiynol (hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol/) yn ffurfiol ym mis Hydref 2018. Mae'r ymagwedd 'gwnaed yng Nghymru' hon at ddysgu proffesiynol yn adlewyrchu cam allweddol yn y broses ddiwygio. Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol wedi'i lunio i greu gweledigaeth sy'n addas ar gyfer y system addysg sy'n datblygu yng Nghymru gyda hawl dysgu proffesiynol genedlaethol i bob ymarferydd addysgol, nid athrawon yn unig. Mae'n gyson â'n safonau proffesiynol newydd, dull gweithredu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a'r model dysgu proffesiynol, i greu gweledigaeth sy'n addas ar gyfer ein system addysg sy'n datblygu.

Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn canolbwyntio ar y dysgwr ac yn ymgorffori pedwar diben Cwricwlwm i Gymru 2022. Ei nod yw bod yn ymatebol i flaenoriaethau ysgolion a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac mae'n cwmpasu taith ddysgu unigol pob ymarferydd.

Darparwyd cyllid ychwanegol o £24 miliwn dros y 18 mis hyd at fis Mawrth 2020 er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn barod ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae'r cyllid hwn yn hyblyg er mwyn galluogi ysgolion i gydweithio mewn ffyrdd sy'n addas at eu hamgylchiadau. Rydym wedi cydnabod yn gynyddol bwysigrwydd creu'r amser a'r lle i ymarferwyr ac arweinwyr gydweithio rhwng ysgolion a rhwydweithiau er mwyn paratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig ac wedi cyflwyno diwrnodau HMS ychwanegol er mwyn rhoi amser ysgol gyfan i bob ymarferydd allu gwneud hyn.

O ran yr ymarferwyr hynny sy'n cynorthwyo addysgu rydym wedi nodi'n glir bod y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn berthnasol i bob aelod o staff sy'n cefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu. Wrth ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer dysgu proffesiynol rydym wedi nodi'n glir unwaith eto mai diben y cyllid yw cefnogi athrawon ac arweinwyr ond hefyd, ac mae hyn yn bwysig, y rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Rydym wedi gweithio gyda'n Gwasanaethau Rhanbarthol Gwella Ysgolion i ddatblygu'r cymorth a'r hyfforddiant sydd ar gael, gan gynnwys datblygu a chynyddu'r niferoedd sy'n sicrhau statws Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) a datblygu llwybr dysgu i bob cynorthwyydd addysgu. Mae'r Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu yn amrywio o gymorth i gynorthwywyr addysgu newydd eu penodi, hyd at CALU a chynorthwywyr addysgu arbenigol, gan sicrhau bod pob cynorthwyydd addysgu yn cael cyfle i ddatblygu ei sgiliau a'i brofiad drwy ddysgu proffesiynol. Mae disgwyliad clir hefyd y caiff y rhai sy'n cynorthwyo addysgu eu cynnwys yn y diwrnodau HMS Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol newydd wrth i'r system ymbaratoi i wireddu Cwricwlwm i Gymru 2022.

Ar ôl sefydlu'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Mathemateg a'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn 2017, a chyhoeddi Cwricwlwm i Gymru 2022 drafft a datblygiadau eraill, daeth yn amlwg bod angen adfywio'r rhwydweithiau cenedlaethol a phenderfynwyd sefydlu chwe rhwydwaith cenedlaethol newydd, un ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad. Bydd y broses o greu rhwydweithiau cenedlaethol ar gyfer pob un o'r meysydd dysgu a phrofiad yn dwyn ynghyd wybodaeth am ymarfer addysgu ym mhob maes dysgu a phrofiad ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed, yn cydgysylltu'r broses o ddatblygu a chyflwyno ymarfer cydnabyddedig, gan gynnwys mewn perthynas â dysgu proffesiynol, a gwaith ymchwil er mwy gwella profiadau dysgwyr.

Bydd pob rhwydwaith cenedlaethol yn helpu ymarferwyr i ddeall eu maes dysgu a phrofiad ac, ar yr un pryd, yn mireinio ac yn datblygu'r maes dysgu a phrofiad yn barhaus. Bydd y rhwydweithiau cenedlaethol hefyd yn nodi goblygiadau o ran dysgu proffesiynol sy'n codi o Gwricwlwm i Gymru 2022 ac yn tywys y ddarpariaeth o ddysgu proffesiynol yn ôl yr angen. Byddant yn cefnogi datblygiad addysgegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn eu maes dysgu a phrofiad ac yn darparu canllawiau ac adnoddau cenedlaethol, yn datblygu ymchwil weithredu ac yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion a phartneriaid eraill.

Rydym hefyd yn gweithio i adeiladu'r seilwaith ategol ar gyfer dysgu proffesiynol drwy weithio gydag ymarferwyr er mwyn datblygu adnoddau digidol i gefnogi rhaglen dysgu proffesiynol gyffredin ar ddiwygio'r cwricwlwm.

Mae arolwg awtomataidd cenedlaethol newydd ar gyfer ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu bellach ar gael i bob ysgol, ac mae pob pennaeth yng Nghymru wedi cael gwahoddiad gan y consortia rhanbarthol i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae'r newid hwn tuag at arolwg sydd ar gael yn genedlaethol, ynghyd â'r cymorth sydd ar gael gan ysgolion arweiniol a'r rhanbarthau, yn cefnogi'r broses bontio ehangach tuag at system o ysgolion sy'n hunanwella, gyda phob un o haenau'r system addysg yn datblygu fel sefydliadau sy'n dysgu, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- gweithredu'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn llawn erbyn mis Ebrill 2020 ac yn helpu pob ysgol i ddatblygu fel sefydliadau sy'n dysgu
- lansio rhaglen genedlaethol i ddatblygu pob ymarferydd fel ymholwyr proffesiynol yn barod ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022
- parhau i gefnogi dysgu proffesiynol y rhai sy'n cynorthwyo addysgu drwy barhau i ddatblygu'r Llwybr Dysgu i Gynorthwywyr Addysgu a mireinio rhaglen CALU yn unol â'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer Cynorthwyo Addysgu
- sefydlu rhwydweithiau cenedlaethol newydd ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad
- datblygu cynlluniau cyflawni cynhwysfawr sy'n amlinellu blaenoriaethau pob rhwydwaith cenedlaethol a'r hyn y byddant yn ei ddarparu
- cwblhau'r broses o bontio i system hunanwella gyda phob un o haenau'r system addysg yn gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu.

**Meini prawf llwyddiant**

- Sicrhau bod pob ymarferydd yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru 2022.
- Mae pob ysgol yn cael gafael ar gyllid dysgu proffesiynol ychwanegol er mwyn targedu cymorth ar lefel leol.
- Mwy o ymgysylltu a pharodrwydd ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022.
- Gweithredu fframwaith cenedlaethol i achredu darpariaeth dysgu proffesiynol ar bob lefel.
- Sicrhau bod pob ymarferydd yn teimlo ei fod yn aelod o rwydwaith cenedlaethol, a gwneud yn siŵr bod pob rhwydwaith cenedlaethol yn rhoi cymorth allweddol i ymarferwyr o ran dylunio'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol, ymarfer addysgegol, a mynediad at dystiolaeth ac ymchwil.

## Arweinyddiaeth gan gynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth

Mae'r diwygiadau presennol i'n system addysg yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr ysgolion gael eu paratoi a'u cefnogi'n dda i arwain eu sefydliadau. Mae *Cenhadaeth ein cenedl* yn rhoi arweinyddiaeth wrth wraidd y diwygiadau ac mae 'Arweinyddiaeth ysbrydoledig' yn amcan galluogi allweddol.

Er mwyn cefnogi'r maes gwaith hwn sefydlwyd gennym yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, a fydd yn sicrhau ansawdd, yn cefnogi ac yn adeiladu ar y ddarpariaeth ym maes arweinyddiaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd, gan sicrhau bod y ddarpariaeth honno ar gael yn gyffredinol ac yn cael ei chyflwyno'n lleol er mwyn sicrhau'r un mynediad a darpariaeth i bawb.

Yng Nghymru, bydd cymorth i gamu ymlaen yn eich gyrfa fel athro a gwella sgiliau arwain yn cael ei gyflwyno drwy nifer o raglenni datblygu. Mae diddordeb yn y Rhaglen CPCP, a'r niferoedd sy'n cymryd rhan ynddi, wedi tyfu dros y tair blynedd sy'n arwain at y cynllun hwn i ddatblygu'r gweithlu, ac mae rhaglen estynedig wedi cael ei chyflwyno sy'n cynnwys hyfforddi, mentora a rhaglen datblygu lefel uchel. Y rhaglenni newydd i gefnogi penaethiaid

newydd a thros dro oedd y cyntaf i gael eu cymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, gan sicrhau bod y rhai sy'n ymgymryd â'r rolau arweinyddiaeth hollbwysig hyn yn cael cymorth yn ystod blynyddoedd cynnar prifathrawiaeth. Mae darpariaeth gymeradwy hefyd ar gael i benaethiaid profiadol a bob blwyddyn mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru yn recriwtio dwsin o benaethiaid profiadol i weithredu fel Aelodau Cyswllt yr Academi i arwain y gwaith ar arweinyddiaeth system mewn lleoliadau.

Rydym yn cydnabod, er mwyn cefnogi ein hymarferwyr a'n system, fod yna feysydd y mae angen eu datblygu. Mae angen i waith cynllunio ar gyfer olyniaeth, fel proses systemig a chydlynol, fod yn nodwedd gref ar ein system. Rydym wedi rhoi'r dasg o ddechrau mynd i'r afael â'r maes hwn i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru, ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol eraill, fel rhan o'i chylch gwaith dros dair blynedd.

**Yn ystod 2019–21 byddwn yn:**

- datblygu ymhellach Raglen CPCP sy'n arloesol ac yn heriol, ac sy'n helpu i ddatblygu Cwricwlwm i Gymru 2022 a'i roi ar waith
- parhau i weithio gyda'r sector i ddatblygu darpariaeth newydd ac arloesol i ddatblygu arweinyddiaeth sy'n cael ei chymeradwyo a'i chefnogi drwy'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
- gwneud gwaith i ystyried rôl penaethiaid gweithredol a modelau newydd o arweinyddiaeth ysgolion sy'n gysylltiedig â ffurf newidiol trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghenion ysgolion bach a gwledig, a chefnogi arweinwyr mewn ffederasiynau ac ysgolion pob oed (ysgolion 3 i 16 oed neu 3 i 19 oed)
- gweithio gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru a phartneriaid eraill i nodi materion a thueddiadau yn y data ar y gweithlu o ran camu ymlaen mewn gyrfa a chynllunio ar gyfer olyniaeth
- gweithio gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru i ddatblygu cynigion cynllunio ar gyfer olyniaeth sy'n gweithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

**Meini prawf llwyddiant**

- Mae amrywiaeth ehangach o gyfleoedd ar gael i ddatblygu'r arweinwyr presennol ac arweinwyr yn y dyfodol.
- Mae tystiolaeth o welliant yn nifer yr ymgeiswyr o safon uchel am swyddi arwain mewn ysgolion.
- Mae tystiolaeth bod cymorth mwy effeithiol yn cael ei roi i arweinwyr ysgolion gan gorff cynyddol o reolwyr busnes a chyrff llywodraethu effeithiol.
- Mae gan bob ysgol ac awdurdod lleol, a lle y bo'n briodol bob awdurdod esgobaethol, gynllun olyniaeth clir ar waith i ymarferwyr ac arweinwyr, ac mae ymarferwyr ac ysgolion yn hyderus yr ymdrinnir â gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth mewn ffordd fwy cydlynol ac mae'n nodwedd adnabyddadwy ar y system yn y dyfodol.
- Mae pob partner allweddol yn ymrwymedig i gydweithio i greu atebion system gyfan synhwyrol o ran cynllunio ar gyfer olyniaeth.

# Llywodraethu, monitro a thu hwnt i 2021

Mae trefniadau llywodraethu eisoes ar waith i reoli a chefnogi ein diwygiadau addysgol, y byddwn yn eu defnyddio i helpu i gefnogi a monitro’r broses o gyflawni cynllun datblygu’r gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys ein rhaglen ddiwygio bresennol (gweler llyw.cymru/diwygio-addysg-yng-nghymru-y-modd-y-mae-penderfyniadaun-cael-eu-gwneud?_ga=2.126007685.985152762.1571662633-2018120996.1571302767), y Bwrdd Cyflawni a’r Bwrdd Newid yn ystyried ac yn cytuno ar gynnydd, a grwpiau arbenigol yn parhau i roi cyngor ar feysydd o gynllun datblygu’r gweithlu, megis y trefniadau sydd ar waith ar gyfer recriwtio a chadw.

Mae cynllun datblygu’r gweithlu yn manylu ar y gweithgarwch y byddwn ni a’n partneriaid yn ymgymryd ag ef hyd at 2021. Er bod rhai camau gweithredu yn mynd y tu hwnt i’r adeg hon, erbyn 2021 bydd nifer o’r camau gweithredu a amlinellir yma wedi cael eu gwireddu. Rydym yn disgwyl edrych eto ar gynllun datblygu’r gweithlu yn ystod 2021 er mwyn nodi’r camau gweithredu pellach sydd eu hangen yng nghyd-destun y tymor llywodraethu nesaf a thu hwnt.